Gweithdy Adnoddau Cymunedol Sain Tathan– Dydd Iau 4 Rhagfyr, 2008

Trosolwg
Mae'r ddogfen hon yn gofnod o'r sylwadau a wnaed yn ystod y Gweithdy Adnoddau Cymunedol a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff RAF Sain Tathan ar ddydd Iau 4 Rhagfyr, 2008.

Mae'r pwyntiau hyn bellach wedi eu bwydo i mewn i'r brif broses gynllunio ac, er ei bod yn amhosib ymrwymo i weithredu ar bob pwynt, byddant i gyd yn cael eu hystyried gan y tîm prosiect fel rhan o'r broses ymgynghori.

i) Adnoddau chwaraeon

a) Mynediad i adnoddau

Cwestiynau

1. Pa warant sydd yna y bydd y cyhoedd yn gallu defnyddio'r adnoddau ar adegau o ddiogelwch uchel?
2. Os fydd y safle'n cael ei gloi oherwydd mesurau diogelwch, am ba hyd fydd mynediad yn cael ei wahardd? Os oes clybiau'n defnyddio'r adnoddau ar gyfer hyfforddi ar gyfer cystadleuaeth, fe allai torri ar draws eu hamserlen hyfforddi fod yn niweidiol iawn
3. Beth fyddai'r lefelau diogelwch, fydd yna system pas diogelwch?
4. Fydd yr adnoddau hamdden 'tu hwnt i'r weiren'?
5. Faint o bobl fydd yn cael mynediad i'r adnoddau o Ffordd Eglwys Brewis?
6. Sut fydd pobl o Lanmaes yn cael mynediad i'r adnoddau? Fyddai hi'n bosib cael mynedfa ychwanegol o'r ffordd sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol y safle adnoddau chwaraeon?
7. Fydd gan bobl o'r Gwersyll Gorllewinol fynediad i'r adnoddau ac ar ba amseroedd?
8. Trwy gadw defnydd milwrol a sifilaidd ar adegau gwahanol, fyddwch chi'n creu gwrthdaro rhwng 'ni' a 'nhw'?
9. Beth fydd oriau mynediad i'r cyhoedd? Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi mynediad yn ystod y dydd – beth fydd y print man yn ei ddweud?
10. Pa fynediad fydd yna i glybiau ac ysgolion lleol a'r Coleg Addysg Bellach lleol?
11. Fydd defnydd lleol o'r adnoddau'n cael ei gymell e.e. gyda phwyntiau gwobr neu gynllun teyrngarwch?
12. Wedi clywed y byddwch chi ond yn gallu cael mynediad i'r adnoddau chwaraeon fel rhan o grŵp cyfundrefnol - ydi hyn yn wir?
13. Beth fydd yr effaith ar adnoddau eraill yn yr ardal?
14. Faint fydd pobl yn gorfod talu i ddefnyddio'r adnoddau?

Sylwadau

15. Mae'n bwysig bod ysgolion a chlybiau'n cael defnyddio'r adnoddau. Dylent gael triniaeth ffafriol hefyd
16. Mae angen i ysgolion lleol fod yn rhan o'r broses penderfynu a rhaid gadael i bobl ifanc ddefnyddio'r adnoddau

17. Fe nodwyd bod mynediad cyhoeddus i adnoddau ar hyn o bryd yn fuddiol yn ystod gwyliau ysgol ond byddai'r MOD yn eu defnyddio trwy'r amser
18. Byddai'n dda i'r cyhoedd allu defnyddio'r adnoddau yn y bore, gyda'r nos ac ar benwythnos
19. Dylai mynediad i'r adnoddau fod yn hollol gyfannol gyda'r boblogaeth filwrol a sifilaidd yn eu defnyddio ar yr un pryd
20. Mae angen ystyried mynediad llawn i bobl ag anableddau – y tu allan a thu mewn – a dylid ystyried anghenion pob sector yn y gymuned
21. Efallai y bydd yr adnoddau chwaraeon yn cael eu gorddefnyddio gan yr academi filwrol. A fydd yna lawer o fuddiannau go iawn i'r gymuned leol?
22. Dylai costau am eu defnyddio gymharu gydag adnoddau lleol eraill a dylid eu prisio o fewn cyrraedd y cyhoedd a chynnig gostyngiadau. Dylent hefyd gymharu gydag adnoddau lleol eraill fel na fyddant yn cau o ganlyniad
23. Ni ddylai personél milwrol a'u teuluoedd gael defnyddio'r adnoddau yn Sain Tathan. Dylid eu gorfodi i ddefnyddio'r adnoddau 'tu fewn i'r weiren'
24. Dylai oriau agor i'r cyhoedd fod yn rhesymol a dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnydd gan y gymuned. Dylid hefyd cael amseroedd wedi eu neilltuo ar gyfer defnyddio adnoddau fel y pwll nofio i grwpiau sy'n dysgu/grwpiau babanod/ysgolion ayb.
25. Bydd yr adnoddau hamdden yn creu mwy o draffig cylchred o Lanilltud Fawr
26. Bydd angen i ni ganolbwyntio ar adnoddau ar gyfer plant a phobl dros 60 oed
27. Wedi clywed llawer o siarad dros y blynyddoedd. Yr hyn yr ydym ei eisiau nawr yw sicrwydd, fel y gallwn ni (fel cynghorwyr) fwrw ymlaen i werthu'r cynllun

b) Adnoddau

Cwestiynau

1. Fydd yr adnoddau hyn yn ategu at, yn hytrach na chymryd lle, adnoddau lleol eraill, yn arbennig y rhai hynny yn Llanilltud Fawr?
2. Fydd parcio digonol yn cael ei ddarparu?
3. Mae'r gwasanaeth heddlu ac ambiwlans yn chwilio am gyfleuster (mater a godwyd mewn cyfarfod partneriaeth heddlu) – ydi Metrix wedi siarad gyda nhw?

Sylwadau

4. Nodwyd y gallai'r gymuned ennill llawer o ddatblygiad yr adnoddau chwaraeon newydd ac y byddai hyn yn cael ei groesawu yn y Fro
5. Byddai'r pwll nofio'n cael ei groesawu
6. Gallai'r adnoddau ddod yn rhan o ganolfan ragoriaeth chwaraeon, yn arbennig ar ôl Gemau Olympaidd 2012
7. Nodwyd bod yr adnoddau presennol fydd ar gael i'r cyhoedd wedi eu hanelu at grwpiau hŷn ac nad oes llawer o adnoddau ar gyfer babanod a phlant ifanc. Mae angen ystyried hyn, er enghraifft lleiniau bach i blant ifanc
8. Mae angen darparu mwy o gyrtiau sboncen
9. Mae'n bwysig nad yr adnoddau'n unig sy'n cael eu darparu ond yr offer hefyd er mwyn i'r cyhoedd fanteisio'n llawn arnynt e.e. clwydi ar gyfer y trac athletau
10. Gwnaed ceisiadau i ystyried yr adnoddau canlynol a cheisio cisrhau eu bodar gael i'r cyhoedd:
    - *Llain astroturf dan do*
    - *Wal ddringo*
    - *Clwb Ieuenctid*
    - *Pwll Splash/pwll plant/lle bas yn y prif bwll nofio*
    - *Boncyffion a byrddau plymio*
    - *Llwybr ffitrwydd ar hyd ffin y safle*

- *Darpariaeth gweithgareddau awyr agored*
- *Sinema (mae'r un yn Y Barri newydd gau – problem o gadw pobl ifanc yn ddiddig)*
- *Bowlio deg/Bowlio*
- *Man chwarae gydag offer ar gyfer plant*
- *Canolfan gymunedol/siop rad*
- *Canolfan hwylio*
- *Neuadd chwaraeon i'w sefydlu fel adnodd amlddefnydd*
- *Dawns*
- *Llyfrgell a chaffi rhyngrwyd*

c) Lleoliad

Cwestiynau

1. Pam na ellir darparu'r adnoddau chwaraeon ar neu ger y cwrs golff a symud y safle SFA oddi ar y cwrs golff?
2. Pam nad yw'r adnoddau chwaraeon yn agosach at y boblogaeth leol e.e. yn agosach at Sain Tathan?

Sylwadau

3. Mae'n bwysig bod adnoddau mor hygyrch â phosib ac mae hyn yn golygu rhoi ystyriaeth ofalus i'r lleoliad
4. Angen sicrhau bod y caeau chwaraeon ar dir sy'n draenio'n dda – nid tir corsiog

d) Arall

Cwestiynau

1. Fydd ysgol Ymarfer Corff yr RAF yn symud i'r safle hwn?
2. Allai grwpiau o breswylwyr sydd â diddordeb fynd i ymweld â'r safle i weld yr adnoddau sy'n bodoli eisoes yn MOD Sain Tathan?
3. Beth fydd yn digwydd i'r cwrs golff – adnodd poblogaidd yn barod? Os collir tyllau er mwyn adeiladu tai fyddwn ni'n cael rhai eraill yn eu lle?
4. Pwy fyddai'n gyfrifol am waith cynnal a chadw'r adnoddau yn y tymor hir a phwy fyddai'n talu amdano?
5. Pwy fydd yn rhedeg yr adnoddau?
6. Pan fydd offer yn torri neu pan fydd angen offer newydd, pwy fydd yn talu am hyn?
7. Codwyd pryder ynglŷn â sicrhau bod plismona digonol ar y safle. Oes yna gynlluniau i gael gorsaf heddlu ar y safle?
8. Pa weithgareddau fydd yn digwydd ar ffin y safle a sut fyddai hyn yn effeithio ar bobl sy'n cerdded o'i gwmpas?
9. Fydd yna adnoddau beicio ar y ffordd? Fydd yna ddarpariaeth ar gyfer llwybr beicio o amgylch y safle cyfan?

Sylwadau

10. Mae'r gymuned wedi cael addewidion yn y gorffennol ond ni wireddwyd dim ohonynt. Byddai'n drueni mawr petai hyn yn dilyn yr un patrwm.

ii) Seilwaith lleol

Cwestiynau

1. Beth yn union fydd yr adnoddau meddygol a deintyddol yn eu darparu e.e. Uned Damweiniau ac
2. Achosion Brys, gwelyau ysbyty?
3. Fydd yna unrhyw adnoddau mamolaeth ar y safle?
4. Fydd yr hyfforddeion sifilaidd sy'n gweithio yn yr Academi yn gallu defnyddio'r adnoddau meddygol?
5. Beth fydd yr effaith ar ysgolion lleol? I ba ysgol fydd y plant yn mynd?

Sylwadau

6. Os oes angen i bobl gael eu hatgyfeirio at ymgynghorwyr mewn ysbytai eraill, mwy yn yr ardal hon, bydd yn cael effaith ar amseroedd aros

iii) Amgueddfa

Cwestiynau

1. Fydd yr amgueddfa'n cynnwys arteffactau archeolegol/gwybodaeth a gafodd eu darganfod yn ystod y gwaith adeiladu ar y safle?
2. Allai'r amgueddfa arddangos etifeddiaeth yr ardal leol?
3. Allai cymdeithas hanes Sain Tathan sefydlu yno fel estyniad i'r amgueddfa?
4. Faint o bobl fydd yr amgueddfa'n eu denu ac a fydd hyn yn creu problem gyda thraffig?

Sylwadau

5. Efallai y byddai'r amgueddfa yn well yn Y Barri gyda'r amgueddfa rheilffordd
6. Byddai'n syniad da cadw'r amgueddfa ar agor yn hwyrach er mwyn denu pobl ifanc gyda'r nos – mae diffyg adnoddau i grwpiau iau yn yr ardal
7. Cysylltwch ef gyda'r arfordir treftadaeth
8. Mae angen toiledau a chaffi ble gall plant fwyta brechdanau
9. Byddai'n dda petai'r amgueddfa'n adlewyrchu hanes yr ardal leol a Sain Tathan ei hun

iv) Creche

Cwestiynau

1. Fyddai creche newydd yn ategu at yr un sy'n bodoli eisoes yn Y Man Ymgynnull?

Sylwadau

2. Mae cefnogaeth yn gyffredinol i'r creche gan fod angen/eisiau llefydd gofal plant trwy'r amser
3. Mae gofal plant yn y Fro yn ddrud ar y cyfan
4. Oherwydd creche Y Man Ymgynnull, byddai'n dda cael un ar y safle wedi ei leoli yn bellach i'r gorllewin. Byddai'n dda ger y ganolfan chwaraeon. Roedd arfer a bod dau creche ar y gwersyll (Dwyrain a Gorllewin)

v) Siop Spar

Cwestiynau

1. Fydd yna adnoddau siopa ar y safle i bobl yn yr Academi eu defnyddio?
2. Ydi'r swyddfa bost ar y safle'n cael ei gadw?
3. Ydi NAAFI yn dal yn berchen ar siop Spar?

Sylwadau:

4. Mae adnoddau siopa'n hanfodol i bobl leol – yn arbennig y rhai hynny ar incwm isel
5. Fydd yr adnoddau siopa'n aros ar agor trwy gydol y cyfnod adeiladu? Mae hyn yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig
6. Fydd y siop yn cynyddu mewn maint? Fyddai siopwyr lleol ddim yn hapus gyda hynny

vi) Adnoddau eraill

Cwestiynau

1. Fydd y sinema ar agor i'r cyhoedd?
2. Fydd y band pres yn parhau ar y safle? A ellid ei gyfuno gyda band REME?
3. A ellid gwneud lle ar gyfer 'gweithgareddau allgyrsiol' fel dosbarthiadau nos?
4. Fyddai'n bosib cael caffi rhyngrwyd i bobl ifanc ei ddefnyddio?
5. Fydd yna adnoddau hyfforddi cadlanciau ar y safle?
6. Fydd yna 'siop' addysgiadol y gall pobl sydd eisiau ymuno gyda'r Lluoedd Arfog ymweld â hi er mwyn cael gwybodaeth?
7. Fydd y ganolfan ffydd yn cael ei defnyddio fel neuadd gymunedol? Os felly, byddai hyn yn cystadlu gyda'r Man Ymgynnull
8. Ydych chi'n adeiladu'r ganolfan ffydd am ei fod yn swnio'n dda neu am fod galw amdano?

Sylwadau

9. Angen lle i blant chwarae yn agos at y llety preswyl – roedd hyn yn digwydd yn y gorffennol, ond mae cynnal a chadw'n broblem
10. Byddai St Brise yn dda ar gyfer grwpiau bach sydd ddim yn ffitio mewn lleoliadau eraill (cf mae gan Y Bontfaen ystafelloedd ar gyfer arlunio, ffotograffiaeth ayb)
11. Er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol, byddai angen gwresogi ayb yn St Brise – yn barod i'w ddefnyddio pryd bynnag fyddwch yn cyrraedd yno

vii) Sylwadau Cyffredinol

Cwestiynau

1. Fydd arwyddion ar y safle'n ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg)?
2. Fyddai gwefan y datblygiad yn gallu cynnwys 'fly-throughs'?
3. Ydych chi'n ymgynghori gyda'r heddlu lleol?
4. Pam ei bod hi'n hanfodol adeiladu ar y cwrs golff?
5. Roedd gan yr Hen Wersyll glwb radio amatur - allwn ni gael un newydd?
6. Mae yna dir braenar i'r gogledd o'r gwersyll ger y siediau ar y ffens derfyn – ydi hi'n bosib cadw hwn?
7. Mae'r briff gwreiddiol yn son am 7.5 acer o fastiau ar y safle – ble fyddan nhw'n cael eu gosod?

Sylwadau

8. Mae'r ailddatblygiad ar raddfa rhy fawr i'r ardal leol. Bydd yn peidio â bod yn gymuned wledig

- gorffen -